*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Y Gwasanaethau Democrataidd CBSRhCT
2 Llys Cadwyn
Stryd Taf
Pontypridd CF37 4TH

Dolen gyswllt: Emma Wilkins (07385406118)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 7 Chwefror 2024 am 5pm**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

| AMSER | EITEM | TUDALEN(NAU) |
|---|---|---|
| 5 Munud | **EITEM 1. DATGANIADAU O FUDDIANT**<br><br>Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor<br><br>1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a<br>2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael. | |
| 40 Munud | **EITEM 2. BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD**<br><br>Derbyn cyflwyniad PowerPoint gan Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n rhoi:<br><br>• Diweddariad ar waith Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ei flaenoriaethau ehangach a'i effaith hyd yma.<br>• Trosolwg o'r newid i fod yn Gydbwyllgor Corfforaethol a'r trefniadau llywodraethu ehangach | |
| 5 Munud | **EITEM 3. COFNODION**<br><br>Cadarnhau cofnodion o gyfarfod ar-lein y Cyngor a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024 yn rhai cywir. | 3 - 28 |

| | | |
|---|---|---|
| | **EITEM 4. CYHOEDDIADAU** | |
| | **LLYWODRAETHU AGORED:** | |
| 10 Munud | **EITEM 5. DATGANIADAU**<br><br>Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet: | |
| 20 Munud | **EITEM 6. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**<br><br>Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.<br><br>(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.) | 29 - 38 |
| | **RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU**<br>Rhaglen Waith y Cyngor 2023/2024 | |
| | **ADRODDIADAU'R SWYDDOGION** | |
| 45 Munud | **EITEM 7. RHYBUDD O GYNNIG**<br><br>Ystyried y Rhybuddion o Gynnig sydd wedi'u cyflwyno yn unol â Rheol Gweithdrefn y Cyngor 10.1 yn y cyfansoddiad. | 39 - 42 |
| | **EITEM 8. MATERION BRYS**<br><br>Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig. | |

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**

**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod ar-lein y Cyngor a gafodd ei gynnal ddydd Mercher 17 Ionawr 2024 am 5pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Sheryl Evans | Y Cynghorydd B Stephens |
| Y Cynghorydd L Addiscott | Y Cynghorydd M Ashford |
| Y Cynghorydd J Barton | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd P Binning | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd J Cook |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd S J Davies |
| Y Cynghorydd A Dennis | Y Cynghorydd V Dunn |
| Y Cynghorydd E L Dunning | Y Cynghorydd J Edwards |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd S Emanuel |
| Y Cynghorydd D Evans | Y Cynghorydd P Evans |
| Y Cynghorydd Sera Evans | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd B Harris |
| Y Cynghorydd S Hickman | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd W Hughes |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd G O Jones | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd C Leyshon | Y Cynghorydd C Lisles |
| Y Cynghorydd M Maohoub | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd K Morgan |
| Y Cynghorydd N H Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd D Owen-Jones |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd D Parkin |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd C Preedy | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd A O Rogers |
| Y Cynghorydd J Smith | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd L A Tomkinson | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd J Turner | Y Cynghorydd G L Warren |
| Y Cynghorydd K Webb | Y Cynghorydd M Webber |
| Y Cynghorydd T Williams | Y Cynghorydd D Wood |
| Y Cynghorydd R Yeo | |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr S. Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Cyllid a Gwasanaethau Gwella
Lesley Lawson, Rheolwr Cyflawniad

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Davis | Y Cynghorydd A J Ellis |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd S Trask |
| Y Cynghorydd D. Williams | Y Cynghorydd G E Williams |
| Y Cynghorydd R Williams | |

**78 Croeso**

Croesawodd y Llywydd bawb i gyfarfod ar-lein y Cyngor.

**79 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**EITEM 5: CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Johnson - Datganiad Personol - "Rydw i'n gweithio i Drafnidiaeth Cymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher - Datganiad Personol - "Mae fy mab yn gweithio i Drafnidiaeth Cymru"

**EITEM 7: ADRODDIAD BLYNYDDOL CRONFA DEDDF YR EGLWYS YNG NGHYMRU 2022/23**

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis - Datganiad Personol - "Rydw i'n Gyfarwyddwr ar E Siop Fach Zero ac mae fy merch yng nghyfraith yn gweithio i Home Rescue, mae'r ddau wedi'u crybwyll yn yr adroddiad."

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby – Datganiad Personol - “Rydw i’n aelod o Bwyllgor Nos Galan, sy’n derbyn arian gan Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru”

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Maohoub – Datganiad Personol - “Rydw i'n aelod o un o’r pwyllgorau sy’n derbyn cyllid gan Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan - Datganiad Personol - "Fi yw Trysorydd Cyfeillion Parc Tyn y Bryn sydd wedi'i enwi yn yr adroddiad"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones - Datganiad Personol - "Fi yw Cadeirydd Sefydliad a Llyfrgell Trecynon, sy'n derbyn cyllid gan Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Owen-Jones - Datganiad Personol - "Mae

Parc Tyn y Bryn yn cael ei drafod yn yr adroddiad am Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings - Datganiad Personol - "Rwy'n ymwneud â sefydliad sy'n derbyn cyllid gan Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees - "Rwy'n ymwneud â sefydliad sy'n derbyn cyllid gan Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan - Datganiad Personol - "Rydw i'n rhan o Bwyllgor Adeilad Amgylcheddol Dan-y-Las, Grŵp Amgylcheddol Dan-y-Las, Canolfan Cymuned Fernhill a Glenbói a Phwyllgor Nos Galan, sydd oll wedi elwa o gyllid gan Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Tomkinson - Datganiad Personol - "Rwy'n ymwneud â sefydliad sy'n derbyn cyllid gan Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris - "Rwy'n aelod o fwrdd grŵp cymunedol y mae sôn amdano yn yr adroddiad"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A S Fox - Datganiad Personol - "Fi yw Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Pwyllgor Pwll Gerddi Lee Penrhiwceiber, rydw i hefyd yn Drysorydd ar gyfer Eglwys y Santes Gwenffrewi ym Penrhiwceiber sydd wedi derbyn cyllid gan Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber - Datganiad Personol - "Rydw i'n Gadeirydd ar gyfer Grŵp sy'n derbyn cyllid gan Gronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis - Datganiad Personol - "Mae Cylch Meithrin Seren Fach ar yr un safle ag Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon, rydw i'n Llywodraethwr ar gyfer yr ysgol yma"

(Cafwyd datganiadau o fuddiannau personol pellach yn ddiweddarach - gweler cofnod 84/89)

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Bradwick – Datganiad Personol - “Fi yw Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru”

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Roberts - Datganiad Personol - "Rydw i'n aelod o Bwyllgor Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Holmes - Datganiad Personol - "Rydw i'n aelod o Bwyllgor Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Smith - Datganiad Personol - "Rydw i'n aelod o Bwyllgor y Gynghrair"

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones - Datganiad Personol - “Fi yw Cadeirydd Pwyllgor y Gynghrair”

80 **Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2023, yn rhai cywir.

81 **Cyhoeddiadau**

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

- Talodd y Cynghorydd M Webber deyrnged i'r diweddar Mr Dennis Gethin, a fu farw ym mis Tachwedd 2023. Bu Mr Gethin yn Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Taf-elái o 1982 hyd at ei ymddeoliad yn 1996, ac roedd yn gyn-Lywydd ar Undeb Rygbi Cymru. Estynnodd ei chydymdeimlad i'w deulu ar ran y Cyngor.

- Dymunodd y Cynghorydd D R Bevan dalu teyrnged i JPR Williams, cyn chwaraewr rygbi Cymru a Llewod Prydain a fu farw ar 8 Rhagfyr 2023. Rhannodd atgofion melys am y seren rygbi y bydd colled fawr ar ei ôl.

- Cyhoeddodd y Cynghorydd M Ashford y bydd yn rhedeg Marathon Llundain ym mis Ebrill ac yn codi arian ar gyfer elusen Macmillan.

82 **Cwestiynau gan yr Aelodau**

1. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Stacey i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

"A wnaiff yr Arweinydd rannu'r newyddion diweddaraf â'r Aelodau am y gwaith paratoi sy'n cael ei wneud i groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Rondda Cynon Taf yn 2024?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Ymatebodd yr Arweinydd drwy esbonio bod strategaeth Ysgolion wedi'i chreu a'i rhannu â phob ysgol, ac mae carfan yr Eisteddfod wedi cyfrannu at y strategaeth hon. Mae gwybodaeth gyffredinol am yr Eisteddfod yn cael ei hanfon at rieni/gwarcheidwaid o hyd a hynny er mwyn sicrhau bod modd i bob plentyn a pherson ifanc a'u teuluoedd gymryd rhan yn yr Eisteddfod a deall beth yw'r Eisteddfod. Ychwanegodd fod Swyddogion yn parhau i gefnogi'r pwyllgorau apêl lleol ym mhob cwm i godi arian tuag at y targed o £400,000. Cadarnhaodd ei bod hi'n debygol bod y cyfanswm presennol wedi mynd tu hwnt i £100,000 ac mae rhagor o achlysuron codi arian ar y gweill.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod adborth 'Dewch i Siarad am Eisteddfod 2024' wedi bod yn hollbwysig o ran ymgysylltu â busnesau lleol a'r cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng Swyddogion y Cyngor a masnachwyr lleol, Prif Weithredwr y Cyngor a'r Eisteddfod. Yn ystod y cyfarfod, mynegodd y masnachwyr ddiddordeb mewn cael stondin yn yr achlysur yn ogystal ag addurno'u busnesau cyn yr Eisteddfod. Mae gwaith wedi'i wneud gyda Chyngor Tref Pontypridd, yn ogystal ag AGB Pontypridd, Aberdâr a Threorci er mwyn casglu adborth am y cymorth yr hoffai busnesau lleol ei gael yn y cyfnod cyn yr

Eisteddfod.

Nododd yr Arweinydd y bydd y manteision sy'n gysylltiedig â dod â'r Eisteddfod i Bontypridd yn ymestyn y tu hwnt i'r dref i ardaloedd eraill yn y rhanbarth a Chymru gyfan, gan greu gwaddol parhaus. Nododd fod y strategaeth parcio ceir yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd yn annog ymwelwyr i ddefnyddio cyfleusterau Parcio a Theithio a thrafnidiaeth gyhoeddus, gyda mwy o drenau yn cyrraedd y dref, ac yn annog pobl i beidio â defnyddio ceir yn y dref. Cyfeiriodd at nifer o feysydd carafanau/gwersylla sydd wedi'u nodi ac a fydd yn cael eu datblygu dros y misoedd nesaf.

Dywedodd yr Arweinydd fod gwaith yn cael ei wneud y tu ôl i'r llenni sy'n cael ei arwain gan Fwrdd yr Eisteddfod gyda mewnbwn lleol gan y Cyngor. Mae'r dull o weithio fel tîm gyda busnesau, sefydliadau lleol eraill, a'r Cyngor, wedi bod yn gadarnhaol a bydd hyn yn parhau. Nododd yr Arweinydd fod yr Eisteddfod yn achlysur y mae modd i bawb ei fynychu a'i fwynhau ac yn gyfle i'r Gymraeg, diwylliant Cymreig a thref Pontypridd ddisgleirio.

2. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.D. Ashford i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet rannu'r newyddion diweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud ar yr ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Pont-y-clun?"

**Ymateb y Cynghorydd R Lewis:**

Rhoddodd y Cynghorydd Lewis wybod bod gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y safle i ailddatblygu Ysgol Gynradd Pont-y-clun a darparu adeilad ysgol newydd a chyfleusterau allanol ar gyfer y gymuned. Ychwanegodd fod cwmni Morgan Sindall Construction wedi cynghori y dylai'r ysgol Carbon Sero-Net newydd gael ei chwblhau erbyn y dyddiad agor sydd wedi'i bennu, sef yn gynnar yn 2025. Bydd adeiladau'r ysgol bresennol yn cael eu dymchwel ar ôl agor yr adeilad newydd, a hynny er mwyn adeiladu'r Ardal Gemau Aml-ddefnydd.

Nododd y Cynghorydd Lewis fod y gwaith o osod y ffrâm ddur wedi dechrau, er gwaethaf y tywydd gwael yn ddiweddar, a bydd y cam yma'n cael ei gwblhau dros yr wythnosau nesaf cyn symud ymlaen at osod y to newydd. Yn ystod tymor y Gwanwyn bydd gan staff a dysgwyr gyfle i fynychu seremoni 'llofnodi'r dur'.

Yn rhan o'r ymdrechion i gydnabod hanes yr ysgol, mae'r contractwr adeiladu wedi ymrwymo i gadw ac adleoli'r garreg wreiddiol sy'n nodi dyddiad agor adeilad gwreiddiol yr ysgol, a gafodd ei dymchwel yn 2023, a'i gosod mewn man amlwg ger y brif fynedfa newydd i'r ysgol.

I gloi, cadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg fod trigolion lleol yn derbyn cylchlythyrau rheolaidd sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ysgol newydd. Yn y cyfamser mae swyddogion y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda'r contractwr adeiladu i sicrhau cynnydd y gwaith ar y safle.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

Rhoddodd y Llywydd wybod ei fod wedi derbyn ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D Williams felly fyddai cwestiwn 3 ddim yn cael ei ofyn i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Leyshon.

4. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

"A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet wneud datganiad ar y buddsoddiad sylweddol i Barc Coffa Ynysangharad?"

**Ymateb y Cynghorydd A Crimmings:**

Rhoddodd y Cynghorydd A Crimmings wybod bod y cam diweddaraf o welliannau sylweddol i Barc Coffa Ynysangharad yn canolbwyntio ar yr hen gwrs golff byr. Mae'r gwaith yma wedi'i gwblhau gyda chymorth Grant Y Pethau Pwysig Croeso Cymru a'r Cyngor.

Amlinellodd y Cynghorydd Crimmings y prosiect, sy'n cynnwys gwneud llwyfandir uchaf yr hen gwrs golff yn wastad drwy fabwysiadu dull tirlunio meddal i'w wneud yn fan gwyrdd sy'n haws ei ddefnyddio.  Mae'r gwaith trawsnewid yma'n darparu ardal fwy ymarferol ac yn creu lleoliad amlbwrpas y mae modd ei ddefnyddio ar gyfer achlysuron a gweithgareddau tebyg, gyda llwybr troed newydd sydd hefyd wedi'i gyflwyno i wella hygyrchedd ac amwynder cyffredinol y parc.

Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd hirdymor y tir yn dilyn y gwelliannau yma, esboniodd y Cynghorydd Crimmings fod rhwystr wedi'i osod i helpu'r tir. Bydd hyn yn arwain at ddeilliant cadarnhaol sy'n golygu y bydd modd i'r cyhoedd fwynhau'r ardal yn ystod misoedd yr haf. O ran buddsoddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, nododd fod y prosiect wedi derbyn cymorth sylweddol gwerth £1.9miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cynllun Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod gwaith adeiladu Canolfan Calon Taf bellach wedi'i gwblhau a dim ond mân waith sy'n weddill. Mae'r ganolfan yn gwbl weithredol erbyn hyn. Mae gan y ganolfan ystafell ddosbarth bwrpasol, gardd awyr agored sy'n cynnwys gwelyau blodau uchel a thŷ gwydr. Mae'r ganolfan fywiog yma'n ganolbwynt cymunedol a fydd yn annog trigolion i ddysgu ac ymgysylltu gyda'i gilydd. Mae Cydlynydd y Prosiect, sydd wedi'i leoli yng Nghalon Taf, yn parhau i hwyluso'r gwaith o ddarparu cyrsiau a gweithgareddau yn y parc, gan sicrhau bod y ganolfan yn chwarae rôl barhaus fel man cymunedol, bywiog a deniadol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Crimmings fod gwaith adfer a thrawsnewid y bloc toiledau gwag yn gyfleuster lles ar gyfer staff y Parc wedi'i gwblhau, ac mae hyn wedi arwain at symud staff i'r cyfleuster yma. Yn ogystal, mae'r Safle Seindorf a'r ardal gyfagos wedi'u hadfer yn llwyr. Mae gwaith plannu wedi dod i ben, ac mae disgwyl i waith dylunio llawr 'llinell amser' y Safle Seindorf gychwyn yn fuan.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod y gwaith o adfer ardal yr Ardd Isel yn mynd rhagddo a bod y gwaith ar y wal sy'n mynd ar hyd terfyn y parc a'r llwybrau troed bron wedi'i gwblhau. Mae disgwyl i waith plannu ddechrau yn y Gwanwyn.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

5. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Middle i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings**:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ar gynllun uchelgeisiol y weinyddiaeth hon i ddarparu 10 Ardal Gemau Aml-ddefnydd newydd ledled RhCT?"

**Ymateb y Cynghorydd A Crimmings:**

“Mae gwella cyfleusterau yn y gymuned i'n pobl ifainc yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor, a hynny er mwyn hyrwyddo cadw'n heini yn yr awyr agored, yn ogystal â'r buddion lles a ddaw yn sgil hynny. Gan ystyried yr uchod, mae'r Cyngor yn bwriadu darparu dwy Ardal Gemau Aml-ddefnydd bob blwyddyn, lle nodir angen, sef cyfanswm o ddeg Ardal Gemau Aml-ddefnydd dros gyfnod o 5 mlynedd.

Esboniodd y Cynghorydd Crimmings fod y Cyngor eisoes wedi darparu'r ddwy Ardal Gemau Aml-ddefnydd a nodwyd ar gyfer 22/23, gan fanteisio ar gyllid gwerth £200,000. Mae'r rhain wedi'u lleoli ym Mharc Pen-y-graig a man chwarae Heol Albert, Graig. Ychwanegodd fod plant a phobl ifainc yr ardal wedi croesawu'r ddwy ardal gemau a bod yr ysgol gynradd leol wedi bod yn defnyddio'r cyfleuster yn Heol Albert ar gyfer sesiwn gemau.

Cafodd yr Aelodau wybod bod y ddau gynllun sydd wedi derbyn cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol hon bellach wedi dechrau, a chafodd y gwaith gosod ym Mharc Ynyscynon, Llwynypia, ei gwblhau cyn y Nadolig. Bydd y gwaith paentio llinellau yn cael ei gynnal yn y gwanwyn pan fydd y tymheredd yn codi. Rhoddodd y Cynghorydd Crimmings ddiweddariad hefyd ar yr ail safle sydd wedi'i ddewis eleni, sef y tir cyferbyn â pharc sglefrio Aberdâr ger canolfan hamdden Sobell. Yn ogystal ag ymateb i'r angen sydd wedi'i nodi yn yr ardal yma, mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd gosod yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd yn y lleoliad yma'n helpu i atal plant a phobl ifainc rhag mynd i mewn i'r cae 3G ar ôl iddo gael ei gloi.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Crimmings nad yw'r gwaith wedi'i ddechrau hyd yma o ganlyniad i'r tywydd gwael yn ystod y mis diwethaf, ond mae'r contractwyr yn gobeithio cwblhau'r gwaith cyn diwedd y flwyddyn ariannol os yw'r amodau'n caniatáu hynny. Mae swyddogion yn asesu'r lleoliadau ar gyfer y gwaith yn 2024-25 o hyd, a bydd manylion y rhain yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

6. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A J Dennis i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

"A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet amlinellu pa fuddsoddiad sydd wedi'i ddyrannu i fannau chwarae i blant ledled y Fwrdeistref?"

**Ymateb y Cynghorydd A Crimmings:**

Ymatebodd y Cynghorydd Crimmings trwy ddweud bod y mannau chwarae a chyfleusterau awyr agored yn annog iechyd a lles, ac yn gweithredu fel adnodd hanfodol yn ein cymunedau y mae modd i blant, ffrindiau a theuluoedd ei fwynhau. Ychwanegodd fod y Cyngor yn falch o berchen a chynnal 217 o fannau chwarae ledled y Fwrdeistref Sirol. Yn ystod 2023, cafodd £250,000 pellach ei ddyrannu er mwyn gwella ac adnewyddu mannau chwarae.

Rhoddodd y Cynghorydd Crimmings ddiweddariad ar y gwaith adnewyddu diweddaraf, sy'n cynnwys Parc Nant Celyn yn Llanilltud Faerdref a Sgubor Goch yn Llanhari. Ychwanegodd ei bod hi'n siŵr y byddai'r Aelod Lleol yn falch o'r cynllun a gwblhawyd yn Nheras Martins yn ward Abercynon yn ddiweddar. Mae hyn yn dod â chyfanswm y buddsoddiad ers 2015 i £6miliwn.

Ychwanegodd y Cynghorydd Crimmings fod hyn yn golygu bod 76% o'r 217 o gyfleusterau bellach wedi derbyn buddsoddiad wedi'i dargedu gan y Cyngor. Mae'r buddsoddiad yma wedi arwain at adnewyddiad rhannol neu adnewyddiad llawn. I gloi, nododd y Cynghorydd fod gan y weinyddiaeth hon ymrwymiad i drigolion RhCT i barhau i fuddsoddi yn y maes yma, gyda 75 o gyfleusterau pellach i'w gwella.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

7. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Emanuel i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

"Yn dilyn y cyhoeddiad am y gwaith hanfodol a fydd yn cael ei gynnal ar Ffordd Mynydd y Rhigos, all yr Aelod o'r Cabinet amlinellu beth sydd wedi'i gynnwys yn rhan o'r cynllun yma a beth y mae modd i drigolion ei ddisgwyl o ran tarfu ar deithio?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod tân gwyllt sylweddol ar Ffordd Mynydd y Rhigos yn 2022 wedi achosi difrod difrifol i ran fawr o ochr y bryn, gyda difrod helaeth i'r rhwydi creigiau a gafodd eu gosod i liniaru'r risg o greigiau a cherrig yn cwympo o wyneb y dywodfaen, a cherrig rhydd yn cwympo o ochr y bryn, i Ffordd Mynydd y Rhigos. Mae llawer o waith dros dro a gwaith ymchwilio wedi'i wneud hyd yn hyn gan ddefnyddio mesurau rheoli traffig, sydd wedi bod yn rhwystredig.

Dywedodd yr Arweinydd fod cam nesaf y gwaith atgyweirio wedi'i drefnu ar gyfer haf 2024, mae elfennau o'r gwaith yn gymhleth iawn a bydd yn rhaid cau'r ffordd dros dro o ganlyniad i'r risg i ddefnyddwyr y ffordd wrth gyflawni'r gwaith. Yn rhan o'r gwaith yma, mae angen gosod rhwydi a bolltau newydd, angorau a cheblau, yn ogystal â gosod rhwystr parhaol i ddiogelu defnyddwyr y ffordd rhag creigiau sy'n cwympo ac er mwyn cael gwared ar y goleuadau traffig.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod y bydd y gwaith yn cychwyn eleni gyda phroses

dendro a bydd raid ystyried y cyllid sy'n cael ei roi i'r cynllun. Ychwanegodd fod yr oedi hyd yma wedi ei achosi gan yr arolygon angenrheidiol a helaeth sydd wedi'u cynnal ynghyd â'r gwaith sydd wedi'i gynnal i ddeall y posibilrwydd o greigiau'n cwympo a'r gwaith dylunio.  I gloi, dywedodd y bydd cyhoeddiadau pellach yn cael eu gwneud maes o law.

**8. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L A Tomkinson i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris:**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad am gynllun ailddatblygu Canolfan Gelf y Miwni?"

Ymateb y Cynghorydd B Harris:

Nododd y Cynghorydd Harris y bydd y gwaith ailddatblygu'n trwsio a diogelu'r adeilad o'r 1890au, ac mae'r prosiect wedi'i ddylunio i ddathlu'r bensaernïaeth gothig. Ychwanegodd fod y gwaith yn cynnwys adnewyddu'r awditoriwm; ailfodelu'r cyntedd, bar a'r mesanîn; a gosod nodweddion newydd megis lifftiau ac ystafelloedd gwisgo; yn ogystal â gwelliannau i'r ardaloedd cefn tŷ.

Cafodd yr Aelodau wybod bod y gwaith mewnol, gan gynnwys gwaith dymchwel, yn mynd rhagddo'n dda. Mae sgaffaldiau hefyd wedi'u gosod yn ddiweddar ym mhrif ardal yr awditoriwm i gael mynediad i'r nenfwd ac mae cynnydd pwysig wedi'i wneud o ran yr elfennau y tu allan i'r adeilad. Darparodd y Cynghorydd Harris rai enghreifftiau; mae gwaith gosod fframiau ar gyfer y paneli solar ffotofoltaig integredig newydd ar gefn y to a gwaith atgyweirio cerrig ar dŵr yr adeilad wedi dechrau ac mae gwaith glanhau cerrig allanol yr adeilad wrthi'n mynd rhagddo.

Esboniodd y Cynghorydd Harris fod y Cyngor yn parhau i weithio gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, a fydd yn gyfrifol am weithredu'r lleoliad unwaith y bydd y gwaith ailddatblygu wedi'i gwblhau. I gloi, dywedodd fod y prosiect yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio cyllid Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU, a hynny ar ôl i'r Cyngor sicrhau cyllid gwerth £5.3miliwn ar ddiwedd 2021. Mae disgwyl i'r prosiect ddod i ben yn yr Haf, yn barod ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**9. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Williams i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

"A wnaiff yr Arweinydd roi diweddariad ar Gynllun Cymorth Costau Byw y Cyngor gwerth bron i £4.3miliwn?"

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

O ran y Cynllun Cymorth i Deuluoedd (£125): Roedd dros 20,000 o aelwydydd wedi'u nodi fel aelwydydd sy'n gymwys i gael taliad yn rhan o'r cynllun yma ac mae'r Cyngor wedi talu bron i £2.5miliwn i 19,500 o deuluoedd hyd yma. Ychwanegodd fod 17 Tocyn Tanwydd i Drigolion wedi cael eu rhoi i drigolion sy'n cael trafferth gyda chostau tanwydd, mae 240 o docynnau ar gyfer offer

trydanol bach a'r archfarchnad wedi cael eu rhoi i drigolion. Mae pedwar Banc Bwyd RhCT wedi derbyn £10,000 yr un ac mae 153 o grantiau Cymorth Ynni wedi'u rhoi i Gyfleusterau yn y Gymuned er mwyn cefnogi lleoliadau i dalu'u biliau ynni fel bod modd iddyn nhw barhau i fod ar agor. Yn ogystal â hyn, mae'r 58 Canolfan Croeso yn y Gaeaf wedi derbyn rhan o'r cyllid sydd ar gael, yn ogystal â llyfrgelloedd y Cyngor. Bydd adroddiadau monitro y mae angen eu cyflwyno ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael eu cyflwyno erbyn canol mis Ebrill.

Siaradodd yr Arweinydd am astudiaeth achos:

Roedd trigolyn wedi cysylltu â'r Arweinydd ar 2 Ionawr yn sgil y caledi roedden nhw'n ei wynebu. Roedden nhw'n cael trafferth i dalu am gostau tanwydd, bwyd a chynnal cyflogaeth. Yn dilyn y sgwrs, roedd Swyddogion wedi ymateb drwy gysylltu â'r unigolyn, cynnal sgwrs 'Beth sy'n bwysig' gyda nhw a chafodd y trigolyn docyn tanwydd a bwyd o fewn 24 awr. Mae modd defnyddio'r tocyn yma ar unwaith er mwyn talu am filiau cyfleustodau a bwyd mewn archfarchnad o'u dewis.

Esboniodd yr Arweinydd mai un achos yn unig yw hwn a bod llawer o achosion tebyg yn derbyn cymorth gan Swyddogion y Cyngor sy'n mynd ati i esbonio pa grantiau a chymorth sydd ar gael iddyn nhw. Soniodd hefyd am y gwaith da sy'n cael ei wneud gan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth sydd wedi agor adeilad newydd ym Mhontypridd ac sy'n gweithio'n agos gyda'r Cyngor.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol gan fod yr amser a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau wedi dod i ben (pwysleisiodd y Llywydd fod y cloc wedi'i stopio yn ystod cyfnodau o broblemau technegol).**

**Rhaglen Waith y Cyngor 2023-24**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod y bydd cynrychiolwyr o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn mynychu cyfarfod y Cyngor ym mis Chwefror i rannu'r newyddion diweddaraf am sefydlu a thrawsnewid Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn Gydbwyllgorau Corfforedig. Dywedodd hefyd y byddai Dadl yr Arweinydd (Trafodaeth Flynyddol ar Sefyllfa'r Fwrdeistref Sirol) yn awr yn cael ei chynnal yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn dod i gyfarfod y Cyngor ar 6 Mawrth 2023 (cyn y cyfarfod sy'n cychwyn am 5pm) Nododd hefyd y bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 22 Mai 2024 bellach yn cael ei gynnal ar 8 Mai 2024 am 4pm.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y byddai cyfle i bob Aelod fynychu sesiwn i weld y cyfleusterau newydd yn Llys Cadwyn, Pontypridd. O ran cyfarfodydd hybrid, byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno fesul cam gyda'r bwriad o gynnal cyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Chwefror ar-lein a'r cyfarfod ym mis Mawrth fel cyfarfod hybrid.

**84 Cyllideb Refeniw'r Cyngor 2024/25 – Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro**

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen wybodaeth i Aelodau ynglŷn â Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2024/25, a sylwadau cychwynnol ar ei oblygiadau tebygol ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor.

- Cafodd Aelodau wybod am “benawdau” Setliad Dros Dro 2024/25 a nodir yn yr adroddiad, sef:
- Y cynnydd cyffredinol yn y Grant Cynnal Refeniw a chyllid Ardrethi Annomestig ar gyfer 2024/25 (cyllid heb ei neilltuo) ar lefel Cymru gyfan, ar ôl ei addasu ar gyfer trosglwyddo, yw 3.1% (+£169.8 miliwn).
- Mae'r setliad ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn dangos cynnydd o 2.8%, sy'n llai na'r cyfartaledd ledled Cymru gyfan. Mae ffigurau'r setliad yn amrywio o 2.0% i 4.7% ledled Cymru.
- Mae terfyn isaf o ran cyllid wedi cael ei gynnwys ar gyfer 2024/25 fel nad yw unrhyw Gyngor yn derbyn setliad sy'n is na 2.0%.
- Does dim trosglwyddiadau i mewn i Setliad 2024/25 nac allan ohono.
- Dydy'r Setliad ddim yn dangos unrhyw arwydd o lefelau setliadau'r dyfodol.
- Mae ffigurau dros dro ac amcangyfrifon dangosol ar gyfer 2024/25 hefyd wedi'u cynnwys ar gyfer grantiau penodol, a hynny ar lefel Cymru gyfan. Bydd y Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn gostwng o £45 miliwn i £35 miliwn (lefel Cymru gyfan), dyma ostyngiad o £0.815 miliwn ar gyfer y Cyngor yma. Mae hyn yn ariannu ein cyllideb graidd.
- Mae gostyngiad o £0.086 miliwn yn nyraniad Cyllid Cyfalaf Cyffredinol y Cyngor, sef £13.800 miliwn.

Nododd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen fod effeithiau cyfunol hyn yn golygu bod gan y Cyngor fwlch o £36.654 miliwn yn y gyllideb. Wrth baratoi ar gyfer y setliad, mae swyddogion wedi cytuno ar fesurau cwtogi'r gyllideb tua £10.74 miliwn, gan adael bwlch o £25.911 miliwn yn weddill. Cafodd Aelodau wybod y bydd y Cabinet yn trafod goblygiadau'r sefyllfa uchod wrth baratoi ei strategaeth cyllideb ddrafft. Yn rhan o hyn, bydd canlyniad cam cyntaf y broses ymgynghori ar y gyllideb yn cael ei ystyried.

I grynhoi, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen fod Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a'u bod nhw wedi'u neilltuo at ddibenion penodol a risgiau ariannol. Nododd fod gan y Cyngor hanes llwyddiannus o ddefnyddio'r rhain mewn modd synhwyrol a chymesur a ddylen nhw ddim cael eu defnyddio i ddelio â materion refeniw cyllideb sylfaenol blaenorol.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr. Dywedodd y bydd y flwyddyn sydd i ddod yn heriol iawn a bydd hi'n parhau i fod yn heriol yn y dyfodol wrth i'r Cyngor wynebu pwysau parhaus. Dywedodd nad yw unrhyw swyddog nac Aelod eisiau torri neu leihau gwasanaethau gan wybod bod angen buddsoddiad ar ein cymunedau, ond gyda setliad Llywodraeth Leol ar 2.8% mae angen gwneud penderfyniadau anodd er mwyn pennu cyllideb gytbwys. Nododd yr Arweinydd er y bydd angen i'r Cyngor ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn i gau'r bwlch yn y gyllideb, mae'n bwysig eu bod nhw'n cael

eu hystyried yn ofalus cyn penderfynu eu defnyddio nhw gan fod y rhain yn cael eu defnyddio flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer buddsoddi parhaol yn ein Rhaglen Gyfalaf. Eglurodd yr Arweinydd er bod y cronfeydd wrth gefn wedi'u dosbarthu fel rhai y mae modd eu defnyddio, mae gan y Cyngor ymrwymiadau o hyd yn y Rhaglen Gyfalaf, megis adeiladu cyfleusterau Gofal Ychwanegol, ysgolion arbennig newydd, prynu eiddo ar gyfer cartrefi gofal i blant a phrosiectau seilwaith. Mae'r rhain wedi'u rhestru fesul eitem yng nghyfrifon y Cyngor sydd wedi'u cyhoeddi.

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol ddiolch i swyddogion am yr adroddiad cadarn a nododd y bydd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn cymunedau ar gyfer dyfodol ein trigolion.

Gofynnodd Arweinydd yr Wrthblaid am yr ardollau y mae Cynghorau'n talu amdanyn nhw ar gyfer y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Ers cyhoeddi'r adroddiad annibynnol ar 3 Ionawr a gafodd ei gomisiynu yn ôl cais y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol a Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru sy'n ymwneud â'r methiant o ran rheoli swyddfeydd, byddai'n annheg disgwyl i Gynghorwyr fod yn effro i bob methiant o ran arferion rheoli ond, er gwaethaf hynny, yr Awdurdod Lleol yw'r cyflogwr a'r corff statudol. Gofynnodd a fydd yr ardoll eleni'n cynnwys cost yr adolygiad a faint o arian cyhoeddus gafodd ei ddefnyddio i dalu am yr adolygiad ac a fydd modd adennill costau'r adolygiad.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen nad oes modd iddo gadarnhau'r hyn y byddai'r ardoll yn ceisio ei adennill, a dyma fater i'r Awdurdod Tân. Gofynnwyd i'r Cyngor am lefel ardoll ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod sy'n galluogi'r Gwasanaeth Tân i bennu cyllideb gyfreithiol.

Gofynnodd Aelod arall am eglurhad o ran beth mae'r cynnydd arfaethedig o 3.9% yn ei olygu mewn termau gwirioneddol ar gyfer yr eiddo Band D cyffredin, ac a oes unrhyw gostau sydd wedi'u negyddu gan y premiymau uwch y mae'r Cyngor yn mynd i'w cael gan ddeiliaid Eiddo Gwag Hirdymor ac ail gartrefi.

Cadarnhaodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen fod y premiymau ychwanegol o ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau. Hefyd cadarnhaodd fod deiliad eiddo Band D yn talu £1,614 y flwyddyn ar hyn o bryd. Gyda chynnydd arfaethedig o 3.9%, mae hyn yn cyfateb i £1.20 yr wythnos.

Cyfeiriodd Aelod arall at y Strategaeth Cyllideb sy'n rhestru perimedrau ar gyfer pennu'r Gyllideb a gofynnodd pryd y cafodd y rhestr ei llunio a'i chymeradwyo, a yw'r perimedrau yr un peth â'r rhai gafodd eu defnyddio ar gyfer 23/24 ac a yw'r cyhoedd yn cytuno â defnydd y perimedrau. Cyfeiriodd yr Aelod at yr arbedion effeithlonrwydd cynnar a gofynnodd at beth y cyfeiriodd y rheiny.

Nododd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen fod y perimedrau yr un peth â'r rhai a gafodd eu defnyddio yn y gorffennol a'u bod nhw'n rhan o Adroddiadau Strategaeth Cyllideb a ddefnyddir ar gyfer Ymgynghoriadau Cyhoeddus. Cadarnhaodd y cafodd yr arbedion effeithlonrwydd cynnar eu nodi yn adroddiad y Cabinet ym mis Tachwedd 2023.

Cyfeiriodd Aelod arall at adroddiadau eraill Cynghorau eraill ledled y DU sy'n wynebu anawsterau ariannol a nododd ei fod yn hyderus y bydd Arweinydd a Swyddogion Cyngor RhCT yn rhoi trigolion RhCT yn gyntaf. Gofynnodd i'r Arweinydd gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned i ofyn am gymorth gyda gwasanaethau. Dywedodd yn rhinwedd ei rôl fel Arweinydd Cyngor Tref Pont-y-clun eu bod nhw yno i helpu ac eisiau rhoi trigolion yn gyntaf. Nododd yr hoffen nhw weithio ar y cyd i drafod unrhyw bosibilrwydd y gall y Cynghorau Cymuned gynnig gwasanaethau y mae rhaid i'r Cyngor eu torri.

Croesawodd yr Arweinydd y sylwadau a rhoddodd wybod y bydd yn derbyn y cynnig i gwrdd â nhw.

Gofynnodd Arweinydd Grŵp Annibynnol RhCT faint o eiddo gwag hirdymor sydd yn RhCT o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol ac a gafodd y broses ddiweddar o gyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ei hariannu'n rhannol gan y Cyngor.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen wybod bod y Cyngor wedi ymrwymo i gynnal adolygiad wedi blwyddyn o gyflwyno mesurau Eiddo Gwag Hirdymor felly bydd hwnnw'n cael ei gynnal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yma. Cadarnhaodd hefyd fod y broses o gyflwyno terfyn cyflymder o 20mya wedi'i hariannu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi Setliad Llywodraeth Leol 2024/25 Dros Dro, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 20 Rhagfyr 2023;
2. Nodi bod disgwyl i'r Setliad Llywodraeth Leol 2024/25 terfynol gael ei gyhoeddi ddechrau mis Mawrth 2024; a
3. Nodi'r dull o ran ymgynghori ar gyllideb 2024/25 fel sydd wedi'i bennu eisoes.

**85 Adroddiad Blynyddol Deddf yr Eglwys yng Nghymru ac Adroddiad Archwilio Allanol 2022/2023**

Yn ei adroddiad, rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen wybod bod yr adroddiad yn rhoi i'r Cyngor gyfrifon archwiliedig Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru a barn yr Archwiliad Allanol, sy'n farn lân a diamod. Dim ond un diwygiad datgelu bach oedd ei angen i'r broses archwilio. Gofynnodd am gymeradwyaeth o ran Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Yn dilyn cwblhau'r broses archwilio a barn archwilio ddiamod, **PENDERFYNWYD**:

1. Trafod adroddiad yr Archwiliwr Allanol – “Cynllun Archwilio 2022- 23” (Atodiad 1);
(b) Trafod adroddiad yr Archwiliwr Allanol – “Adroddiad Archwilio Cyfrifon” (Atodiad 2);

2. Cymeradwyo a nodi Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Cronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/2023 (Atodiad 3); a

3. Cymeradwyo a nodi'r Llythyr o Gynrychiolaeth sy'n ymwneud â Chronfa Deddf yr Eglwys yng Nghymru (Atodiad 4).

**86 Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor**

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen wybod bod yr adroddiad yn cynrychioli'r gofyniad blynyddol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor erbyn 31 Ionawr 2024. Ychwanegodd ei fod yn gynllun Llywodraeth Cymru cenedlaethol gydag ambell ddisgresiwn lleol fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad. Cadarnhaodd nad oes unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a bod y Cyngor wedi ymgynghori ar y disgresiwn lleol yn rhan o broses ymgynghori gyffredinol y Cyngor ar y gyllideb. Mae'r adborth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Dywedodd Aelod fod adran 4.3 yr adroddiad yn nodi bod y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd o blaid cadw'r tri disgresiwn ond nodir gwybodaeth yn adran 5.4 yr adroddiad na chafodd ei rhoi i drigolion adeg yr ymgynghoriad, sef cyfanswm y bobl sydd wedi elwa o ganlyniad i'r tri disgresiwn yma. Gofynnodd yr Aelod a oes modd cynnwys yr wybodaeth yma yn yr ymgynghoriad y flwyddyn nesaf fel y bydd modd i drigolion wneud penderfyniad mwy gwybodus. Gofynnodd yr Aelod a yw'n bosibl sôn am y disgresiwn yn y llythyr a anfonir gyda bil blynyddol Treth y Cyngor.

Nododd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen sylwadau'r Aelodau i'w hystyried.

Yn dilyn trafod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi a mabwysiadu darpariaethau'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig ac unrhyw newidiadau sydd i'w gwneud i'r rheoliadau hynny oherwydd y Rheoliadau Diwygio fel Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor ar gyfer 2024/25, yn unol â'r disgresiwn lleol y gall y Cyngor ei weithredu a'r rheoliadau sy'n cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 16 Ionawr 2024 ac sy'n dod i rym ar 19 Ionawr 2024;

2. Nodi canlyniad y broses ymgynghori a gynhaliwyd gan y Cyngor ar y disgresiwn lleol sy'n berthnasol i'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25; a

3. Cadarnhau'r disgresiwn sy'n berthnasol i Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor lleol y Cyngor ar gyfer 2024/25, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.3 (Tabl 2) yr adroddiad yma.

**87 Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf 2022–2037 – y Strategaeth a Ffefrir**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu adroddiad i Aelodau sy'n nodi'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022-2037 (sydd i'w gweld yn Atodiad 1). Roedd yr adroddiad yn gofyn am

gymeradwyaeth Aelodau i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol ar y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig sydd wedi cael ei pharatoi yn unol â deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod yr adroddiad yn nodi'r materion allweddol, gweledigaeth, amcanion ac opsiynau'r strategaeth; cyn cyflwyno Strategaeth a Ffefrir. Ar y lefel strategol yma, bydd yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion RhCT trwy gynnig lefelau o dwf datblygu a lle y dylai hyn gael ei ddosbarthu ledled y Fwrdeistref Sirol. Ystyrir bod sawl elfen allweddol o strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol presennol yn gadarn; yn enwedig angen i barhau â'r dull strategaeth gwahanol ar gyfer ardaloedd gogleddol a deheuol y Fwrdeistref Sirol.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad y cynigir ei symud at y cam nesaf ar gyfer ymgynghori statudol. Nododd y bydd adborth yr ymgynghoriad wedyn yn cael ei ystyried cyn parhau â'r camau nesaf. Dywedodd er bod targedau ar gyfer adeiladu tai yn realistig, mae angen sicrhau bod seilwaith yn cael ei gynllunio ochr yn ochr â hyn i sicrhau bod cyfleusterau meddygol, ysgolion a mannau gwyrdd digonol ar gyfer hamdden a chwarae ar gael, yn ogystal ag ehangu Metro De Cymru.

Gofynnodd Arweinydd yr Wrthblaid am eglurhad o ran safleoedd ymgeisiol, ac anogodd bob Aelod i roi eu barn ar safleoedd ymgeisiol i osgoi problemau dadleuol yn y dyfodol pan fydd ceisiadau cynllunio yn dod i law. Cyfeiriodd yr Aelod at y ddwy orsaf drenau a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol yn Hirwaun a Rhigos a gofynnodd am union leoliadau'r gorsafoedd yma ac a fyddai ymgynghoriad â thrigolion lleol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu wybod na fyddai modd iddo gadarnhau lleoliadau'r gorsafoedd ar hyn o bryd a rôl y Cynllun Datblygu Lleol fydd amddiffyn tir sydd ar gael ar gyfer y gwaith arfaethedig i ehangu llinellau a gorsafoedd ond bydd y broses penderfynu ar leoliadau'r rhain yn ymarfer ar wahân i'w gynnal gan gydweithwyr Trafnidiaeth, gan gynnwys Priffyrdd a Thrafnidiaeth Cymru.

Gofynnodd Arweinydd Grŵp Annibynnol RhCT a oes cyfle i'r Cyngor ymgysylltu â thrigolion ar faterion lliniaru llifogydd. Cododd yr Aelod bryderon y bydd un ffordd gerbydau ar gyfer y 9,000 o eiddo ychwanegol arfaethedig sydd i'w hadeiladu. Mae'r ffyrdd yn brysur yn barod felly byddai hyn yn arwain at gynnydd mawr yn nifer y tagfeydd yn yr ardal. Gofynnodd a yw opsiynau amgen yn cael eu hystyried yn y Cynllun Teithio Llesol er mwyn annog trigolion i adael eu ceir gartref a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Gofynnodd hefyd, yn rhan o waith lleihau nifer y cerbydau ar y ffyrdd a symud Pencadlys y Cyngor i Bontypridd, a ddylid ystyried dull hyblyg o ran gofyn i staff fynd i'r swyddfa dim ond pan fo angen iddyn nhw wneud hynny.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu mai rôl y Cynllun Datblygu Lleol fydd hyrwyddo datblygiad sy'n amddiffyn cymunedau presennol rhag llifogydd a, lle bo modd, atal datblygiadau newydd mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd a lle mae angen datblygiadau mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd, sicrhau bod hynny'n digwydd mewn ffordd sy'n gwrthsefyll llifogydd gymaint â phosibl. Dywedodd y Cyfarwyddwr nad oes modd iddo gadarnhau safleoedd y 9,000 o eiddo y mae angen eu cyflawni, ond mae'n debygol y bydd gan unrhyw safleoedd a nodir i'w datblygu ryw fath o broblem o ran seilwaith, llifogydd neu fioamrywiaeth ac eir i'r afael â hyn yn ystod camau drafft y cynllun.

O ran yr arhosfa ym Mhontypridd, dywedodd fod Pontypridd i'w gweld yn un o'r prif ardaloedd strategol o dwf ond nid rôl y strategaeth a ffefrir oedd pennu prosiectau unigol fel arhosfa ar yr adeg yma.

Cododd Aelod bryder gyda'r Strategaeth gan fod Llywodraeth Cymru wedi galw ochr ddwyreiniol y datblygiad arfaethedig yn Llanilltud Faerdref i mewn a bod caniatâd cynllunio wedi cael ei wrthdroi gan ei fod yn Orlifdir C2. Yn ôl yr Arolygiaeth Gynllunio, byddai adeiladu ar y safle yma'n torri Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru felly does dim modd cyflawni'r cynllun. Gofynnodd hefyd am eglurhad o ran yr £8 miliwn sy'n cael ei fuddsoddi tuag at glirio pwll glo yn ardal Beddau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn derbyn sylwadau'r Aelod a bod y broblem o ran llifogydd wedi'i datrys er mwyn cyrraedd y cam yma. Dywedodd mai dyma'r strategaeth a ffefrir a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a byddwn ni'n ystyried unrhyw sylwadau sy'n dod i law cyn datblygu unrhyw safleoedd.

Fe wnaeth Aelod, sydd hefyd yn aelod o Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol, sylwadau am wneud y rhestr o'r tri chant o safleoedd posibl yn gyhoeddus cyn gynted ag sy'n bosibl. Gofynnodd am ystyriaeth o ran yr amgylchedd naturiol a pheidio â gorddatblygu cymunedau felly os bydd y ddemograffeg yn newid, bydd y targedau'n cael eu newid i adlewyrchu'r data er mwyn cadw mannau gwyrdd lle bo modd. Gofynnodd yr Aelod i'r Cyngor ystyried sicrhau, lle bo modd, fod gan ddatblygiadau newydd seilwaith ategol, gyda digon o dai fforddiadwy a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus digonol, a hynny'n rhan o'r broses gynllunio. Nododd yr Aelod fod cymorth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn allweddol a dylai cyfleoedd fod ar gael i ddisgyblion yn y datblygiadau newydd fynd i ysgol Gymraeg yn eu cymuned.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau a rhoddodd wybod bod yr holl dystiolaeth yn awgrymu bod angen y naw mil o dai a pho fwyaf y rhain y bydd modd i'r Cyngor eu cyflawni, y mwyaf o dai fforddiadwy y bydd modd iddo eu cynnig. Ychwanegodd fod gofyniad statudol ar y Cyngor i adolygu'r cynllun bob pedair blynedd a rhoddodd sicrwydd bod modd newid y ffigurau yma os bydd yr angen am dai'n newid. Cadarnhaodd y bydd y safleoedd ymgeisiol hefyd ar gael adeg yr ymgynghoriad cyhoeddus. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelod fod gan Fioamrywiaeth fwy o flaenoriaeth yn y broses gynllunio nag erioed a bydd gofyn i ymgeiswyr gyflwyno tystiolaeth o gamau lliniaru neu welliannau i fioamrywiaeth cyn cymeradwyo unrhyw gynlluniau datblygu.

Gofynnodd Aelod am eglurhad o ran yr adran o'r adroddiad sy'n awgrymu bod angen rhagor o dai fforddiadwy na'r hyn y mae modd adeiladu arno. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod allan o'r naw mil o gartrefi yn y cynllun, byddai angen dros bum mil o'r rheiny i ddelio â'r bobl sydd ar y rhestr aros am dŷ ar hyn o bryd mewn gwirionedd, a bod hynny'n swm sylweddol. Cadarnhaodd fod galw mawr iawn am dai fforddiadwy, yn fwy na'r hyn y mae modd ei ddarparu'n realistig.

Cododd Aelod bryder o ran nifer yr adeiladau gwag mawr yng nghanol tref Pontypridd a gofynnodd beth mae'r Cyngor yn ei wneud i ddenu busnesau o ansawdd da i'w defnyddio. Nododd y Cyfarwyddwr fod y Cynllun Datblygu Lleol yn hyrwyddo Pontypridd fel tref ac yn annog gwaith trawsnewid adeiladau gwag mawr. Ychwanegodd fod hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran adfywio a bod datblygwyr preifat wedi penderfynu ailddatblygu hen fanc HSBC yn adeilad masnachol yn ddiweddar. Cadarnhaodd y bydd y Cyngor yn parhau gyda'r rhaglenni hynny er mwyn hyrwyddo cynlluniau adfywio.

Cyfeiriodd Aelod at y cymorth sydd ar gael i fusnesau sydd wedi'u heffeithio gan waith ffordd yn y cymoedd a gofynnodd a yw hyn wedi cael ei ystyried yn rhan o'r cynllun. Nododd y Cyfarwyddwr y bydd y Cyngor yn ceisio gwneud yn fawr o fudd y buddsoddiad yng ngwaith deuoli'r A465 a bod y safle strategol yn Hirwaun yn un o'r ffyrdd y mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnig gwneud hynny. Ychwanegodd y bydd y Strategaeth Ogleddol yn hyrwyddo'r cyfleoedd yma ar gyfer twf cynaliadwy a chymunedau yng nghanol pentrefi ledled ein cymoedd gogleddol.

Mynegodd Aelod ei siom nad yw Treorci yn cael ei nodi'n brif dref, a nododd fod y term anheddiad allweddol yn annigonol a gofynnodd fod hyn yn cael ei adolygu yn rhan o'r broses ymgynghori.

Yn dilyn y trafodaethau, **PENDERFYNWYD**:

Cymeradwyo'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig at ddibenion ymgynghoriad statudol â'r cyhoedd a rhanddeiliaid

(**Nodwch:** Roedd y Cynghorydd K Johnson am gofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn yr argymhelliad).

**88 ADOLYGU DOSBARTHAU ETHOLIADOL, MANNAU PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (a Swyddog Cofrestru Etholiadol / Swyddog Canlyniadau) ei adroddiad a rhoddodd wybod am y gofyniad ar yr awdurdod lleol i gynnal adolygiad o ddosbarthau etholiadol, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio seneddol bob pum mlynedd ac i gwblhau'r adolygiad presennol erbyn 31 Ionawr 2025. O ystyried y newidiadau diweddar i ffiniau etholaethau seneddol y DU, ystyriwyd ei bod hi'n gall cynnal yr adolygiad cyn gynted ag sy'n bosibl a chyn yr etholiad cyffredinol nesaf.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod amcanion, pwrpas ac amserlen yr adolygiad i'w gweld yn adran 5 yr adroddiad, yn ogystal â'r ymgynghoriad a gafodd ei gynnal â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Aelodau Lleol. Mae ymatebion y cyhoedd i'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 2 yr adroddiad. Mae'r Swyddog Canlyniadau a charfan y Gwasanaethau Etholiadol wedi adolygu pob ymateb i'r ymgynghoriad a sylwadau Aelodau. Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw Aelodau at yr argymhellion i gymeradwyo'r cynigion i newid unrhyw ddosbarth etholiadol, gorsaf bleidleisio a man pleidleisio presennol fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad, a bydd unrhyw newidiadau ôl-ddilynol yn cael eu gwneud i'r gofrestr etholwyr.

Nododd y Cyfarwyddwr fod yna un dosbarth etholiadol lle nad yw lleoliad addas ar gyfer yr orsaf bleidleisio wedi'i sicrhau eto ond ychwanegodd y bydd gwaith yn parhau ar y cyd â'r Aelod lleol i ddod o hyd i leoliad addas cyn yr etholiad nesaf.

I gloi, nododd y Cyfarwyddwr y bydd yn parhau i fonitro pob dosbarth etholiadol, man pleidleisio a gorsaf bleidleisio, yn enwedig y rheiny sy'n cael eu defnyddio am y tro cyntaf, cyn Etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ym mis Mai. Rhoddodd sicrwydd i Aelodau os na fydd unrhyw orsaf ar gael neu os ystyrir ei bod yn anaddas, beth bynnag fo'r rheswm, rhwng y cyfnodau adolygu statudol,

bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud ar y cyd â'r Aelodau lleol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r ymatebion a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Adolygiad o Ddosbarthau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio sydd wedi'u crynhoi yn Atodiad 2 yr adroddiad;

2. Cymeradwyo'r cynigion i ddiwygio Dosbarthau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio presennol fel sydd wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad a nodi y byddai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gweithredu unrhyw newidiadau i'r gofrestr etholwyr o ganlyniad; a

3. Nodi y bydd y Swyddog Canlyniadau yn parhau i fonitro Dosbarthau Etholiadol, Mannau Pleidleisio a Gorsafoedd Pleidleisio fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad 1 a/neu lle nad oes lleoliad amgen addas ar gael ar unrhyw adeg berthnasol, nodi y byddai unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud ar y cyd â'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

**89 Hunanasesiad Blynyddol Drafft 2022/23 (Cynnwys Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor)**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a oedd yn nodi Hunanasesiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2022/23, ar ôl iddo gael ei drafod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19 Rhagfyr 2023, a'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar 20 Rhagfyr 2023 (mae cofnodion y ddau bwyllgor wedi'u cynnwys yn yr atodiadau er gwybodaeth i'r Aelodau)

Dywedodd y Prif Weithredwr mai pwrpas yr Hunanasesiad statudol yw rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, yn defnyddio ei adnoddau'n effeithlon ac yn ddarbodus, ac yn sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol. Wrth gynnal yr hunanasesiad blynyddol, mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd i wneud hynny o dan Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol Cymru 2021.

Dywedodd y Prif Weithredwr mai dyma'r ail flwyddyn i'r Cyngor gynnal ei hunanasesiad statudol, sy'n cynnwys ei adroddiad cyflawniad corfforaethol blynyddol. Ychwanegodd fod yr asesiad yn cyfuno cyfoeth o wybodaeth a ddefnyddiwyd i adolygu cyflawniad y Cyngor yn barhaus, gan gynnwys y cynnydd a wnaed yn erbyn y themâu ar gyfer gwella a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, sut mae'r cynllun corfforaethol yn cefnogi'r blaenoriaethau, asesiad o Swyddogaethau corfforaethol y Cyngor, hunanwerthusiad o wasanaethau'r Cyngor a sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i rhoi ar waith.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr asesiad yn dod â llawer iawn o dystiolaeth ynghyd o bob rhan o'r Cyngor. Mae'r wybodaeth yma wedi'i chasglu drwy'r fframwaith rheoli cyflawniad, adroddiadau chwarterol a'r adroddiadau niferus a ddygwyd ynghyd o gyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a'r Cyngor, y mae'r Aelodau wedi'u trafod drwy gydol y flwyddyn. Mae'n cynrychioli miloedd o dudalennau o wybodaeth a thrwy gydol yr asesiad mae hyperddolenni i'r dystiolaeth a'r data ategol.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad yn dangos amrywiaeth rhyfeddol

swyddogaethau'r Cyngor, maint a chwmpas y gwasanaethau y mae'n eu darparu, a'r cynnydd sylweddol a wnaed o ran cyflawni ei ymrwymiadau trwy gydol 2022/2023. Dywedodd fod adrannau 2 a 3 o'r hunanasesiad yn rhoi trosolwg o'r ymrwymiadau niferus a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod yma. Roedd y Prif Weithredwr o'r farn bod yr hunanasesiad a'r sesiynau herio a gafodd eu cynnal gyda'r Cyfarwyddwyr perthnasol yn golygu bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran pobl, lleoedd a ffyniant. Dywedodd fod hyn, yn syml, yn golygu bod y Cyngor yma'n cyflawni ei ymrwymiadau.

O ran blaenoriaethau ar gyfer gwella wrth edrych tua'r dyfodol, dywedodd y Prif Weithredwr fod y naw thema wedi'u nodi yn yr hunanasesiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol (a restrir ym mharagraff 5.61 o'r adroddiad) wedi gweld cynnydd da, sydd wedi'i amlinellu yn adran un o'r asesiad. Serch hynny maen nhw'n parhau i fod yn flaenoriaethau hirdymor ar gyfer y Cyngor: Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd, yn dilyn yr ymarfer hunanasesu, fod yn rhaid i'r Cyngor barhau i atgyfnerthu ei drefniadau o ran ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chyfranogiad. Roedd hyn yn cynnwys gwerthuso canlyniadau ac adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi mynd rhagddo i atgyfnerthu'r diwylliant sefydliadol o ran amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae'r hunanasesiad yn cynnwys tystiolaeth bod y Cyngor yn cael ei redeg yn dda, ond pwysleisiodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n bwysig i'r Cyngor fod yn barod i herio'i hun a newid ei ffyrdd o weithio lle bo angen.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn fodlon bod yr hunanasesiad cynhwysfawr a chadarn yma'n dangos bod y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, ac yn defnyddio ei adnoddau mewn modd effeithlon a doeth, a bod trefniadau llywodraethu a rheoli cyflawniad cadarn ar waith i sicrhau ei fod yn parhau i wneud hynny. Ychwanegodd ei fod yn fodlon cyflwyno'r hunanasesiad i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi ymhen pedair wythnos, ac aeth ati i gydnabod gwaith y Garfan Gyflawniad, yn arbennig Ms Lesley Lawson, o ran llunio'r adroddiad a chadw'r Cyngor ar y trywydd iawn drwy gydol y flwyddyn.

Cyfeiriodd Arweinydd yr Wrthblaid at ran 6 o'r Ddeddf a pharagraff 4.3 o'r adroddiad, a gofynnodd am eglurhad o ran y sylwadau clo sy'n ymwneud â gwella presenoldeb disgyblion, a nodir ar dudalen 241 yr adroddiad. Cyfeiriodd at y ffaith bod presenoldeb mewn ysgolion yn benodol yn dal i fod yn fater y mae'r Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio'n gryf arno. Yn y gobaith y bydd presenoldeb disgyblion yn dychwelyd i'w lefel cyn y pandemig, holodd a roddir unrhyw ystyriaeth i'r genhadaeth yma ar gyfer gwella presenoldeb. Ymhellach, pe byddai'r Cyngor yn penderfynu bod angen i ddisgyblion fyw ymhellach o'r ysgol i fod yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol, roedd hi o'r farn y byddai hyn yn effeithio ar deuluoedd ac yn tanseilio'r ymgyrch i wella presenoldeb. Gofynnodd Arweinydd yr Wrthblaid a oedd yr Uwch Reolwyr Corfforaethol yn rhoi unrhyw ystyriaeth i gynigion o'r fath, ac a yw'r gost ddynol byth yn ystyriaeth neu a yw'r ddadl ariannol yn drech na gwella presenoldeb ysgol ymhellach.

Ymatebodd y Prif Weithredwr drwy nodi bod adran o fewn yr adroddiad sy'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn cyflawni yn erbyn ei flaenoriaethau. Mae hefyd yn tynnu sylw at y meysydd hynny lle nad yw cynnydd wedi bod cystal ag yr hoffai'r Cyngor ei weld, gan gynnwys gwella presenoldeb yn yr ysgol, sy'n faes sy'n parhau i fod yn heriol o ran cyrraedd y ffigurau presenoldeb cyn y pandemig. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod yna nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar bresenoldeb disgyblion, a bod hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â deilliannau addysgol y Cyngor o ran cyflawniad, ac felly'n parhau i fod yn

flaenoriaeth i wasanaethau addysg y Cyngor. Dywedodd fod gwelliant araf a chyson wedi bod yng nghyfraddau presenoldeb ysgolion dros y misoedd diwethaf o ganlyniad i'r ymdrechion a wneir.

Mewn perthynas â mater Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol, dywedodd y Prif Weithredwr fod y cynigion wedi'u cyflwyno i'r Aelodau ynghylch y newidiadau posibl sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad. Mae Swyddogion ar hyn o bryd yn ystyried yr ymatebion cyn i argymhellion pellach gael eu cyflwyno. Aeth ati i roi sicrwydd i'r holl Aelodau bod y gyllideb yn ystyriaeth hanfodol bwysig ac yn un o'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd o fewn yr hunanasesiad o ran hyfywedd ariannol parhaus y Cyngor. I gloi, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod goblygiadau o ran newidiadau i wasanaethau yn ystyriaeth ddifrifol i'r Uwch Reolwyr a'r holl Aelodau.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag effaith traffig ffyrdd ac ansawdd aer, dywedodd y Prif Weithredwr fod gan y Cyngor gyfrifoldebau statudol o ran rheoli ansawdd aer lleol. Mae ardaloedd rheoli ansawdd aer lleol wedi'u clustnodi o ganlyniad i lygredd nitrogen deuocsid sy'n deillio o gerbydau. Mae'r ardaloedd yma'n cael eu monitro'n agos ac mae gwaith yn mynd rhagddo ym mhob rhan o'r Cyngor, gan gynnwys yng ngharfanau'r priffyrdd a thraffig, i reoli a lliniaru effaith hyn.

Dywedodd Aelod fod y dolenni niferus i ddogfennau eraill wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, y mae angen ei ddarllen ar y cyd â'r adroddiad i ddeall a yw'r Cyngor wedi bodloni'r gofynion o ran cyflawniad yn ystod y flwyddyn, yn cael effaith ar y farn gyffredinol ac yn ei gwneud hi'n anodd gweld lle dydyn ni ddim wedi gwneud cymaint o gynnydd. Ychwanegodd fod y pwyntiau bwled hefyd yn ei gwneud hi'n anodd cyfleu 'argraff onest'. Holodd yr Aelod sut mae diffinio 'mater drygionus', a gofynnodd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r hyn a ddisgrifir yn annigonol o ran ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chyfranogiad (y cyfeirir ato hefyd yng Nghofnodion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio), a sut mae'r Cyngor yn bwriadu gwella'r drefn o ran gwerthuso canlyniadau.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai ystyr 'mater drygionus' yw'r blaenoriaethau a'r themâu allweddol sy'n deillio o'r hunanarfarniad bob blwyddyn, ac y mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnyn nhw. Nodwyd naw ohonyn nhw yn yr hunanarfarniad blaenorol, megis yr argyfwng costau byw, cynllunio ariannol a chydnerthedd, a chefnogi'r rhai sydd angen tai. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod e hefyd wedi amlygu dwy flaenoriaeth arall yn ei gyflwyniad, sef atgyfnerthu ein gwaith o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth, a gwella ymgysylltiad a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau. Ychwanegodd fod y dolenni yn cefnogi'r swm enfawr o wybodaeth ac yn cyfoethogi'r ddogfen pe bai'r Aelodau'n dymuno dadansoddi'r grynodeb yn fwy manwl. Eglurodd fod adran tri o'r hunanasesiad yn nodi meysydd penodol lle dydy'r Cyngor ddim wedi gwneud cymaint o gynnydd ag yr hoffen ni ei wneud, a lle mae angen i ni ganolbwyntio ein sylw. O ystyried bod yr adroddiad yn cyfeirio at y flwyddyn flaenorol, mae'n braf nodi bod cynnydd wedi'i wneud yn llawer o'r meysydd yma yn ystod y flwyddyn. Mewn perthynas â'r ddau bwynt penodol a godwyd o ran ymgysylltiad a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau, aeth y Prif Weithredwr ymlaen i gydnabod bod angen rhagor o gysondeb a gwelliannau mewn rhai meysydd yn y Cyngor (gyda rhai meysydd gwasanaeth eisoes yn cyflawni lefelau ymgysylltu da).

Diolchodd Arweinydd y Grŵp Annibynnol i'r Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr am lywio'r Cyngor drwy gyfnod anodd iawn.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNODD** yr Aelodau:

1. Ystyried yr Hunanasesiad drafft yn Atodiad 1 yn adlewyrchiad cywir a chadarn o sefyllfa'r Cyngor a'i wasanaethau, a'i fod yn bodloni gofynion Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

2. Nodi'r cynnydd mewn perthynas â'r themâu gwella a nodwyd yn Hunanasesiad 2021/22.

3. Ystyried sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19 Rhagfyr 2023 a'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar 20 Rhagfyr 2023.

4. Cymeradwyo Hunanasesiad Blynyddol 2022/23, gan gynnwys Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor, a'i gyhoeddi cyn pen pedair wythnos o gael ei gymeradwyo.

**90 Rhybudd o Gynnig**

**Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol** A. J. Dennis, C. Preedy, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, R. Davis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott, L. Ellis, S. Emanuel, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, R. R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, A. Morgan, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo.

Ychydig fisoedd yn ôl, cyhoeddwyd bod TATA Steel – un o gyflogwyr mawr De Cymru (yn benodol), a Llywodraeth San Steffan y DU wedi cytuno ar becyn cymorth i "sicrhau dyfodol dur yng Nghymru."

Er bod y wasg wedi nodi mai cyfanswm gwerth y pecyn cyffredinol yn £1.25 biliwn, y gwir amdani yw bod y pecyn a'r uchelgeisiau o ran pontio yn annigonol, ac ni fydd y cyhoeddiad hwn yn ddigon i ddiogelu parhad y diwydiant dur yng Nghymru.

Mae'r buddsoddiad ond yn cefnogi'r newid o ffwrneisi chwyth i Ffwrneisi Arc Trydan. Mae hyn yn golygu na fydd y safle ym Mhort Talbot bellach yn gallu cyflawni'r cam cyntaf o ran cynhyrchu dur, gan na fydd ansawdd y broses gynhyrchu'n bodloni'r safon angenrheidiol. Mae hyn oherwydd bod Ffwrneisi Arc Trydan yn ailgylchu dur sgrap.

Yn lle hynny, dylai'r cynllun buddsoddi byr ei olwg yma ganolbwyntio ar symud tuag at ddull cynhyrchu Haearn Gostyngol Uniongyrchol (DRI) a pharatoi ar ei gyfer. Mae modd cefnogi proses DRI trwy ddefnyddio Nwy Naturiol, cyn ystyried

sut i gynhyrchu dur mewn modd sydd wedi'i bweru gan hydrogen. Mae hwn yn ddull mwy cynaliadwy o gynhyrchu dur ac yn llawer mwy uchelgeisiol o ran datgarboneiddio.

Yn ogystal â hynny, ac yn bwysicaf oll, amcangyfrifir y bydd y pecyn buddsoddi hefyd yn arwain at golli 3,000 o swyddi, gyda'r mwyafrif o'r rheini yn ffatri Port Talbot. Mae trigolion Rhondda Cynon Taf yn gweithio yn y gwaith dur ym Mhort Talbot ac mae'n debygol y bydd hyn yn effeithio ar gyfran sylweddol o'r nifer hwnnw - naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Ers y cyhoeddiad, mae wedi dod i'r amlwg nad oedd yr Undebau Llafur na Llywodraeth Cymru yn rhan o'r trafodaethau hyn, ac eto dyma'r union sefydliadau a fydd yn gorfod camu i'r bwlch a darparu cymorth i'r rhai sydd wedi'u heffeithio pan fydd y swyddi yma'n cael eu colli.

Felly mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Bod y "pecyn buddsoddi" ar gyfer TATA Steel yn annigonol iawn, ac yn gwneud fawr ddim i ddiogelu dyfodol y diwydiant yng Nghymru.

- Nad yw trafodion dwyochrog Llywodraeth y DU â TATA yn ystyried yr effaith sylweddol ar y gweithwyr y mae disgwyl iddyn nhw golli ei swyddi.

- Y bydd y newid i brosesau cynhyrchu gan ddefnyddio Ffwrneisi Arc Trydan yn unig yn gam gwag o ran capasiti cynhyrchu dur ym Mhrydain, a bod cyfle sylweddol yn cael ei golli o ran datgarboneiddio rhan hanfodol o economi Prydain (a Chymru).

Mae'r Cyngor yma'n penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at yr Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Senedd sy'n cynrychioli'r cymunedau yn Rhondda Cynon Taf a gofyn iddyn nhw gefnogi ar y cyd y sylwadau a wnaed gan y Cyngor yma i'r Gweinidog(ion) perthnasol yn Llywodraeth y DU. Mae hyn er mwyn ategu barn y Cyngor yma bod y pecyn buddsoddi a gyhoeddwyd yn druenus o annigonol.

- Nodi canfyddiadau'r ddogfen "Wrong Deal for Steel" ac yn cefnogi'r camau a amlinellir gan y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol.

Yn y cyfarfod cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.4.1 y Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol K Morgan, A O Rogers, S Evans, D Grehan, D Wood, H Gronow, P Evans, A Ellis

Roedd y Cynnig Diwygiedig yn nodi:

Ychydig fisoedd yn ôl, cyhoeddwyd bod TATA Steel – un o gyflogwyr mawr De Cymru (yn benodol), a Llywodraeth San Steffan y DU wedi cytuno ar becyn cymorth i "sicrhau dyfodol dur yng Nghymru."

Er bod y wasg wedi nodi mai cyfanswm gwerth y pecyn cyffredinol yn £1.25 biliwn, y gwir amdani yw bod y pecyn a'r uchelgeisiau o ran pontio yn annigonol, ac ni fydd y cyhoeddiad hwn yn ddigon i ddiogelu parhad y diwydiant dur yng Nghymru.

Mae'r buddsoddiad ond yn cefnogi’r newid o ffwrneisi chwyth i Ffwrneisi Arc Trydan. Mae hyn yn golygu na fydd y safle ym Mhort Talbot bellach yn gallu cyflawni'r cam cyntaf o ran cynhyrchu dur, gan na fydd ansawdd y broses gynhyrchu'n bodloni'r safon angenrheidiol. Mae hyn oherwydd bod Ffwrneisi Arc Trydan yn ailgylchu dur sgrap.

Yn lle hynny, dylai'r cynllun buddsoddi byr ei olwg yma ganolbwyntio ar symud tuag at ddull cynhyrchu Haearn Gostyngol Uniongyrchol (DRI) a pharatoi ar ei gyfer. Mae modd cefnogi proses DRI trwy ddefnyddio Nwy Naturiol, cyn ystyried sut i gynhyrchu dur mewn modd sydd wedi'i bweru gan hydrogen. Mae hwn yn ddull mwy cynaliadwy o gynhyrchu dur ac yn llawer mwy uchelgeisiol o ran datgarboneiddio.

Yn ogystal â hynny, ac yn bwysicaf oll, amcangyfrifir y bydd y pecyn buddsoddi hefyd yn arwain at golli 3,000 o swyddi, gyda’r mwyafrif o’r rheini yn ffatri Port Talbot. Mae trigolion Rhondda Cynon Taf yn gweithio yn y gwaith dur ym Mhort Talbot ac mae'n debygol y bydd hyn yn effeithio ar gyfran sylweddol o'r nifer hwnnw - naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Ers y cyhoeddiad, mae wedi dod i’r amlwg nad oedd yr Undebau Llafur na Llywodraeth Cymru yn rhan o’r trafodaethau hyn, ac eto dyma’r union sefydliadau a fydd yn gorfod camu i'r bwlch a darparu cymorth i’r rhai sydd wedi'u heffeithio pan fydd y swyddi yma'n cael eu colli.

Felly mae'r Cyngor yma'n nodi:

- Bod y “pecyn buddsoddi” ar gyfer TATA Steel yn annigonol iawn, ac yn gwneud fawr ddim i ddiogelu dyfodol y diwydiant yng Nghymru.

- Nad yw trafodion dwyochrog Llywodraeth y DU â TATA yn ystyried yr effaith sylweddol ar y gweithwyr y mae disgwyl iddyn nhw golli ei swydd.

- Y bydd y newid i brosesau cynhyrchu gan ddefnyddio Ffwrneisi Arc Trydan yn unig yn gam gwag o ran capasiti cynhyrchu dur ym Mhrydain, a bod cyfle sylweddol yn cael ei golli o ran datgarboneiddio rhan hanfodol o economi Prydain (a Chymru).

Mae'r Cyngor yma'n penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at yr Aelodau Seneddol ac Aelodau’r Senedd sy’n cynrychioli’r cymunedau yn Rhondda Cynon Taf a gofyn iddyn nhw gefnogi ar y cyd y sylwadau a wnaed gan y Cyngor yma i’r Gweinidog(ion) perthnasol yn Llywodraeth y DU. Mae hyn er mwyn ategu barn y Cyngor yma bod y pecyn buddsoddi a gyhoeddwyd yn druenus o annigonol.

- Nodi canfyddiadau’r ddogfen “Wrong Deal for Steel” ac yn cefnogi’r camau a amlinellir gan y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol.

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Arweinwyr y 9 Cyngor arall yn y Gynghrair (Y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol) a gofyn iddyn nhw gytuno i gydweithio i gysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU i wella ei fuddsoddiad yn y Diwydiant dur fel bod unrhyw golledion swyddi eu lleihau ledled Cymru, a bod

modd eu rheoli'n effeithiol ar sail wirfoddol mewn cytundeb â TATA a'r Undebau Llafur perthnasol.

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r diwygiad. Mae'r uchod felly'n disodli'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig**.**

*************************************************************************************

**Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol** S. Emanuel, S. Rees, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, R. Davis, S. J. Davies, A. J. Dennis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott, L. Ellis, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, R. R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, A. Morgan, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, A. Roberts, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo.

Mae'r Cyngor hwn yn anghytuno â'r setliad cwbl annigonol i Gymru a gyhoeddwyd gan lywodraeth Dorïaidd y DU yn Natganiad yr Hydref.

Mae'r setliad hwn ond yn darparu £305 miliwn yn ychwanegol i Lywodraeth Cymru dros gyfnod o ddwy flynedd – ac mae hyn yn golygu bod gan Lywodraeth Cymru tua £160 miliwn y flwyddyn nesaf i fynd i'r afael â'r holl bwysau yn y GIG, llywodraeth leol a'r holl wasanaethau eraill y mae'n eu darparu ar gyfer pobl Cymru.

I roi hyn mewn persbectif, mae Cyngor RhCT yn gwario mwy na £258 miliwn ar addysg yn unig. Amcangyfrifir y bydd pwysau o £35 miliwn yn y Cyngor hwn yn unig, ac mae disgwyl mai'r ffigur ar gyfer llywodraeth leol ledled Cymru fydd £432 miliwn, hyd yn oed ar ôl codi treth y Cyngor.
Fydd y setliad yma ddim yn mynd yn agos at leddfu'r pwysau a wynebir gan wasanaethau yng Nghymru o ran chwyddiant. Mae'n gwneud cam â phobl Cymru ac mae'n dangos cyn lleied y mae Llywodraeth Dorïaidd y DU yn poeni am bobl Cymru.

Mae'r Cyngor hwn felly'n galw ar Lywodraeth Dorïaidd y DU i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus – gan gynnwys iechyd, addysg, a gwasanaethau llywodraeth leol, ac i roi setliad teg i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yng Nghymru yn gallu cael eu hariannu'n briodol.

I'r perwyl hwn, mae'r Cyngor yma'n penderfynu gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu i alw ar Weinidogion y Llywodraeth Dorïaidd i gyhoeddi buddsoddiad ychwanegol yn y Gyllideb ym mis Mawrth.

Yn y cyfarfod cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.4.1 y

Cyngor, fod y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig wedi'i dderbyn oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D Grehan, K Morgan, A O Rogers, S Evans, D Wood, H Gronow, P Evans, A Ellis

Roedd y Cynnig Diwygiedig yn nodi:

Mae’r Cyngor hwn yn anghytuno â’r setliad cwbl annigonol i Gymru a gyhoeddwyd gan lywodraeth Dorïaidd y DU yn Natganiad yr Hydref.

Mae'r setliad hwn ond yn darparu £305 miliwn yn ychwanegol i Lywodraeth Cymru dros gyfnod o ddwy flynedd – ac mae hyn yn golygu bod gan Lywodraeth Cymru tua £160 miliwn y flwyddyn nesaf i fynd i’r afael â’r holl bwysau yn y GIG, llywodraeth leol a’r holl wasanaethau eraill y mae’n eu darparu ar gyfer pobl Cymru.

I roi hyn mewn persbectif, mae Cyngor RhCT yn gwario mwy na £258 miliwn ar addysg yn unig. Amcangyfrifir y bydd pwysau o £35 miliwn yn y Cyngor hwn yn unig, ac mae disgwyl mai'r ffigur ar gyfer llywodraeth leol ledled Cymru fydd £432 miliwn, hyd yn oed ar ôl codi treth y Cyngor.

Fydd y setliad yma ddim yn mynd yn agos at leddfu'r pwysau a wynebir gan wasanaethau yng Nghymru o ran chwyddiant. Mae'n gwneud cam â phobl Cymru ac mae’n dangos cyn lleied y mae Llywodraeth Dorïaidd y DU yn poeni am bobl Cymru.

Mae’r Cyngor hwn felly’n galw ar Lywodraeth Dorïaidd y DU i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus – gan gynnwys iechyd, addysg, a gwasanaethau llywodraeth leol, ac i roi setliad teg i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yng Nghymru yn gallu cael eu hariannu’n briodol.

Mae’r Cyngor yma'n penderfynu bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Brif Weinidog y DU a Changhellor y Trysorlys ac yn galw arno i adfer y cyllid sy’n ddyledus i Gymru er mwyn dychwelyd i’r drefn cyllid teg i Gymru fel yr amlygwyd gan Brif Weinidog Cymru ac Arweinydd Plaid Cymru yn y Senedd yn dilyn cyhoeddiad Datganiad yr Hydref.

Mae’r Cyngor yn penderfynu ymhellach y bydd Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at yr holl Arweinwyr Gwleidyddol yn San Steffan yn gofyn iddyn nhw addo, os ydyn nhw'n rhan o Lywodraeth y DU yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol y mae’r Prif Weinidog wedi cyhoeddi y bydd yn cael ei gynnal yn ail hanner 2024, y byddan nhw'n ymrwymo i bontio'r bwlch yn y Setliad i Gymru 2024/25 a adawyd gan Lywodraeth Dorïaidd y DU.

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** peidio â mabwysiadu'r diwygiad.

Yn dilyn trafodaeth mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.7 y Cyngor, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cynnig gwreiddiol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**

tudalen wag

RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

COUNCIL

7 FEBRUARY 2024

MEMBERS QUESTIONS ON NOTICE

REPORT OF THE SERVICE DIRECTOR, DEMOCRATIC SERVICES & COMMUNICATION.

## 1. PURPOSE OF THE REPORT

1.1 To present the order of questions in respect of the Members Questions on Notice, following the amendment to the process agreed at the Council AGM 2019.

## 2. RECOMMENDATIONS

It is recommended that Members:

2.1 Receive the Questions and any supplementary questions proposed, as in accordance with the running order advised upon in 4.3 of the report, which should not exceed a 20-minute time period.

## 3. REASONS FOR RECOMMENDATIONS

3.1 As agreed at the Council AGM on the 15th May, 2019, Members agreed to amend Council Procedure Rule 9.2 in respect of Members Questions on Notice. A further amendment was made to Council Procedure Rule 9.2 at the Council AGM on the 26th May 2021 in respect of supplementary questions following expiry of the 20 minute time duration. Council AGM 2021

## 4. MEMBERS QUESTION ON NOTICE

4.1 The closing date for receipt of Members Questions on Notice to the Council Business Unit for the Council meeting on the 7th February 2024 was 5pm on the 25th January 2024.

4.2 34 questions were received and put forward to the Council Ballot held on the 29th January 2024, to determine the running order of the questions at the Council Meeting.

4.3 The results of the ballot are outlined below:

| Number | Corresponding Question |
|---|---|
| 1 | **Question from County Borough Councillor Sheryl Evans to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>"Will the Cabinet Member make a statement on the recent awarding of Welsh Government funding under the Resilient Roads and Local Transport Fund?" |
| 2 | **Question from County Borough Councillor J. Edwards to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>"Would the Leader update on the progress of the Welsh Government funded walking and cycling route along the river through the Rhondda Fach?" |
| 3 | **Question from County Borough Councillor S. Rees to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>"Can the Leader provide an update on the progress on the delivery of the Labour Group's manifesto commitments?" |
| 4 | **Question from County Borough Councillor D. Owen-Jones to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>"Can the Leader provide an update on the progress of the A4119 dualling works?" |
| 5 | **Question from County Borough Councillor A. Rogers to the Cabinet Member for Environment and Leisure, County Borough Councillor A. Crimmings:**<br><br>"Can the relevant Cabinet Member share how this Council has invested in recreational activity for young residents in the Hirwaun, Penderyn and Rhigos ward please?" |

| | |
|---|---|
| 6 | **Question from County Borough Councillor A. Ellis to the Cabinet Member for Development & Prosperity, County Borough Councillor M. Norris:**<br><br>“Can the Cabinet Member confirm if the Lady Windsor site in Ynysybwl has been identified for development within the draft LDP please” |
| 7 | **Question from County Borough Councillor S. J. Davies to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>“Can the Leader make a statement on capital investment across Rhondda Cynon Taf?” |
| 8 | **Question from County Borough Councillor R. Evans to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>“Will the Cabinet Member provide an update on the scheme to upgrade the culvert on the industrial estate in Porth?” |
| 9 | **Question from County Borough Councillor D. Grehan to the Cabinet Member for Development & Prosperity, County Borough Councillor M. Norris:**<br><br>“Mae nifer o ardaloedd yn fy ward i, sydd yn amlwg wedi eu hadeiladu gan y Cyngor neu wedi eu hadeiladu wrth greu ddatblygiadau newydd – llwybrau, grisiau, ardaloedd gwyrdd. Erbyn hyn mae’r Cyngor yn dweud nad yw’r ardalodd yma yn eiddo i’r Cyngor ac felly nad oes ganddyn nhw gyfrifoldeb dros drwsio neu gadw’r ardaloedd yma. Galla i ofyn i’r Cyngor yma cymryd cyfrifoldeb dros yr ardaloedd yma er diogelwch ein trigolion?”<br><br>“There are a number of areas in my ward, which have obviously been built by the Council or have been built when creating new developments – paths, stairs, green areas. By now the Council is saying that these areas are not the property of the Council and therefore it has no responsibility for repairing or maintaining these areas. May I ask this Council to take responsibility for these areas for the safety of our residents?” |
| 10 | **Question from County Borough Councillor M. Maohoub to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>“Can the Cabinet Member make a statement on the Council’s preparations and actions taken during the recent period of wet weather?” |

| | |
|---|---|
| **11** | **Question from County Borough Councillor V. Dunn to the Deputy Leader of the Council and Armed Forces Champion, County Borough Councillor M. Webber:**<br><br>“Can the Cabinet Member make a statement on the Council’s programme of events, particularly in the Aberdare area?” |
| **12** | **Question from County Borough Councillor G. Holmes to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>“Will the Leader make a statement on road maintenance and outline how this Council is tackling the issue of potholes?” |
| **13** | **Question from County Borough Councillor R. Williams to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>“Can the Council Leader tell this Council if the opposition group have put forward any budget suggestions in the face of what you have described – both in the Council Chamber and publicly in the media - as one of the most difficult budget rounds RCT has faced?” |
| **14** | **Question from County Borough Councillor R. Yeo to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>“The pressures facing Local Authority budgets are well documented and finances are becoming increasingly strained, but can the Cabinet Member outline what winter maintenance preparations are being considered and confirm whether this remains a priority for the Council?” |
| **15** | **Question from County Borough Councillor G. O. Jones to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>“Can the Council Leader set out what level of protection our school budgets have in the draft budget being worked on?” |
| **16** | **Question from County Borough Councillor J. Smith to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>“With the introduction of the Social Partnership and Procurement Bill in Wales, can the Leader please outline what action RCT are taking to ensure compliance with the legislation?” |

| | |
|---|---|
| 17 | **Question from County Borough Councillor N.H. Morgan to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>“Can the leader update on what flood resilience bids the Council is putting forward to the Welsh Government for the forthcoming year?” |
| 18 | **Question from County Borough Councillor J. Cook BEM to the Cabinet Member for Education, Youth Participation and Welsh Language, County Borough Councillor R. Lewis:**<br><br>“Can the Cabinet Member make a statement on school budget funding plans and proposals, particularly in relation to cash amounts and percentages?” |
| 19 | **Question from County Borough Councillor W. Hughes to the Deputy Leader of the Council and Armed Forces Champion, County Borough Councillor M. Webber:**<br><br>“What support does this Council provide to the local Armed Forces community?” |
| 20 | **Question from County Borough Councillor D. Williams to the Cabinet Member for Climate Change and Corporate Services, County Borough Councillor T. Leyshon:**<br><br>“Would the Cabinet Member provide a further update on the progress of EV charging point rollouts in RCT?” |
| 21 | **Question from County Borough Councillor D. Wood to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>“On Friday 19th January, whilst in Pontypridd, I met 3 different people of varying demographics, who had great difficulties with paying for parking at the RCT car parks. In each case, all had difficulties because there was no hybrid facility available, only coin payments. This included an RCT officer, a mother with a newborn and toddler and a businessman who was very late for his meeting, whilst trying to obtain cash for the machines. Could RCT parking services please explain whether there are any plans to facilitate a change to hybrid payment because this antiquated system is deterring visitors and businesses from visiting. At this time of year and with a cost of living crisis we really need to make sure that parking is easier not more difficult” |
| 22 | **Question from County Borough Councillor E. L. Dunning to the Cabinet Member for Education, Youth Participation and Welsh Language, County Borough Councillor R. Lewis:** |

| | |
|---|---|
| | "Will the Cabinet Member please make a statement on outreach work and detached youth service provision in Rhondda Cynon Taf, particularly in the Ystrad area?" |
| **23** | **Question from County Borough Councillor L. Addiscott to the Cabinet Member for Environment and Leisure, County Borough Councillor A. Crimmings:**<br><br>"Will the Cabinet Member make a statement on investment in our sports centres and outline how this has impacted their usage?" |
| **24** | **Question from County Borough Councillor L. Ellis to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>"Can the Leader provide an update on the programme of coal tip management across RCT?" |
| **25** | **Question from County Borough Councillor W. Treeby to the Cabinet Member for Public Health and Communities, County Borough Councillor B. Harris:**<br><br>"Can the Cabinet Member make a statement on what support the Council is providing to Paddling Pool groups in Rhondda Cynon Taf?" |
| **26** | **Question from County Borough Councillor M. Powell to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>"Could the Cabinet portfolio holder for highways say what measures or proposals the RCT Highways department are considering to alleviate the dire traffic congestion problems that the Pontypridd Town centre has been enduring for many, many years please?" |
| **27** | **Question from County Borough Councillor S. Emanuel to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>"Will the Leader provide an update on the progress of the South Wales Metro in the Rhondda valley?" |

| | |
|---|---|
| 28 | **Question from County Borough Councillor G. E. Williams to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>"With Storm Dennis now almost 4 years ago, can the Leader give an assessment on the progress made since that Storm, which brought so much devastation to RCT?" |
| 29 | **Question from County Borough Councillor A. S. Fox to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br>"Can the Leader provide an update to Members on the discussions taking place given the significant financial pressures facing the public sector next year?" |
| 30 | **Question from County Borough Councillor J. Bonetto to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:**<br><br>"Will the Leader provide an update on the progress of the South Wales Metro, and in particular on the depot at Taff's Well?" |
| 31 | **Question from County Borough Councillor K. Morgan to the Deputy Leader of the Council, County Borough Councillor M Webber:**<br><br>"Has this council formally evaluated the publics' views on the value of consultation exercises undertaken by the council?" |
| 32 | **Question from County Borough Councillor C. Preedy to the Cabinet Member for Environment and Leisure, County Borough Councillor A. Crimmings:**<br><br>"Can the Cabinet Member please give an update on the usage of the National Lido of Wales' and any information on how long the summer season will be this year?" |
| 33 | **Question from County Borough Councillor S. Hickman to the Cabinet Member for Development and Prosperity, County Borough Councillor M. A. Norris:**<br><br>"Will the Cabinet Member make a statement on investment in Porth town centre?" |
| 34 | **Question from County Borough Councillor W. Lewis to the Cabinet Member for Environment and Leisure, County Borough Councillor A. Crimmings:**<br><br>"Can the Cabinet Member update on recycling rates in RCT and what progress is being made to improve these?" |

4.4 At the Council meeting a maximum of 20 minutes shall be allowed for Questions on Notice. Any questions that are not dealt with in this time limit shall fall. Any questions on notice not answered will need to be resubmitted to the Proper Officer for the next full Council meeting in accordance with these rules.

## 5. CONSULTATION / INVOLVEMENT

5.1 The amendments to the Council Procedure Rule in respect of Members Questions was considered and agreed at the Council's AGM 2019 and AGM 2021, following consultation with the Constitution Committee.

## 6. EQUALITY AND DIVERSITY IMPLICATIONS

6.1 The amendment to the Council procedure rule taken forward at the Council AGM, allows the opportunity for more Members to ask a question at Council

## 7. FINANCIAL IMPLICATIONS

7.1 There are no financial implications aligned to this report.

## 8. LEGAL IMPLICATIONS OR LEGISLATION CONSIDERED

8.1 The report has been prepared in accordance with Council Procedure Rule 9.2.

## 9. LINKS TO THE COUNCILS CORPORATE PLAN / OTHER CORPORATE PRIORITIES.

9.1 The opportunity for Members to propose questions at Council meetings allows Members to receive information which potentially detail the Council priorities. It also embraces the Future Generations Act as all work and decisions taken by Council seek to improve the social, economic, environmental and cultural well-being of the County Borough.

## 10. CONCLUSION

10.1 Detailing the procedure for Members Questions on Notice assists in transparency for both Members and for public engagement.

**Other Information:-**

**Relevant Scrutiny Committee** – Overview & Scrutiny Committee

**LOCAL GOVERNMENT ACT 1972**

**AS AMENDED BY**

**THE LOCAL GOVERNMENT (ACCESS TO INFORMATION) ACT 1985**

**RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**COUNCIL**

**7 FEBRUARY 2024**

**REPORT OF THE SERVICE DIRECTOR, DEMOCRATIC SERVICES & COMMUNICATION.**

**Item: MEMBERS QUESTIONS ON NOTICE**

**Background Papers**

Council AGM 2019.

Council AGM 2021

tudalen wag

RHONDDA CYNON TAF

**RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**MUNICIPAL YEAR 2023 - 2024**

**COUNCIL**

**7 FEBRUARY 2024**

**NOTICE OF MOTION**

**REPORT OF THE SERVICE DIRECTOR, DEMOCRATIC SERVICES & COMMUNICATION**

## 1. PURPOSE OF REPORT

1.1 Council is asked to consider the Notice of Motion (NOM) as set out below for which the necessary notice has been provided and make an appropriate recommendation in accordance with Rule 10.1 of the Constitution.

## 2. RECOMMENDATION

It is recommended that Members:

2.1 Consider the Notice of Motion as outlined in paragraph 4.2 and make an appropriate recommendation; and

2.2 Request that the Service Director Democratic Services & Communication makes the necessary arrangements to record the NOM and provide any updates through the publication of 'information reports' on the Council agenda, as formerly agreed.

## 3. REASONS FOR THE RECOMMENDATION

3.1 In accordance with the Council's Constitution.

## 4. NOTICES OF MOTION

4.1 To consider the under-mentioned Notice of Motion which has been submitted in accordance with Council Procedure Rule 10.1 and received by the Proper Officer, standing in the names of County Borough Councillors:

4.2 S. Emanuel, R. Williams, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple, J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, R. Davis, A. J. Dennis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott,

L. Ellis, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, R. R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, A. Morgan, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, S. Rees, A. Roberts, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, T. Williams, R. Yeo.

On 24th February 2022, Russian forces that had massed along the border with Ukraine launched a full-scale invasion, marking the biggest attack on a European country since the Second World War.

The invasion, justified by Vladimir Putin as an attempt to “de-Nazify” Ukraine, has seen millions displaced and hundreds of thousands injured or killed – either in combat or through the devastating air strikes on civilian areas.

As innocent Ukrainian people were forced to flee their homes, Wales and RCT (along with may other countries) welcomed those seeking refuge with open arms and supported them as they tried to adjust to their new lives.

Now, with the War in Ukraine marking its second anniversary and the conflict still raging as Ukraine fights to retain its sovereignty, this Council therefore:

- Condemns the continued aggression of the Russian invaders.
- Reaffirms its unwavering support for Ukraine and its people.
- Commends the efforts of those residents of RCT who welcomed those fleeing the conflict into their homes and also to those who provided support to others who have sought sanctuary.

## 5. FINANCIAL IMPLICATIONS

5.1 There are no financial implications aligned to this report.

## 6. LEGAL IMPLICATIONS AND LEGISLATION CONSIDERED

6.1 The report has been prepared in accordance with the Council’s Constitution

## 7. EQUALITY AND DIVERSITY IMPLICATIONS

7.1 There are no Equality and Diversity implications arising from this report and no Equality Impact Assessment is deemed necessary for the purposes of this report as it relates to a procedural matter under the Councils Constitution.

7.2 The procedural rules regarding a Notice of Motion are contained within Council’s Constitution which sets out the framework for the decision-making roles and responsibilities.

## 8. CONCLUSION

8.1 This report presents for Members’ consideration the Notice of Motion submitted to Council for the period February 2024 for which the necessary notice has been given.

**LOCAL GOVERNMENT ACT 1972**

**as amended by**

**LOCAL GOVERNMENT (ACCESS TO INFORMATION) ACT 1985**

**RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**LIST OF BACKGROUND PAPERS**

**COUNCIL**

**7TH FEBRUARY 2024**

**NOTICE OF MOTION**

**REPORT OF THE SERVICE DIRECTOR, DEMOCRATIC SERVICES & COMMUNICATION**

tudalen wag